

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C. B. Jones  
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach CF40 2XX  
Rhif ffôn (01443) 424098 – J Nicholls

Bydd cyfarfod o Bwyllgor Craffu - **CYNNAL GWASANAETHAU CYHOEDDUS,  
CYMUNEDAU a  
FFYNIANT yn cael ei gynnal yn:  
BRYN PICA, LLWYDCOED, ABERDÂR, RHONDDA CYNON TAF, CF44 0BX  
DDYDD IAU 25 Ionawr 2018 AM 5.00PM**

(Bydd cyfle i aelodau'r Pwyllgor Craffu Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus,  
Cymunedau a Ffyniant fynd ar daith o amgylch Bryn Pica, y cyfleuster gwastraff int-  
egredig am 3.45pm).

## AGENDA

### 1 **DATGAN BUDDIANT**

**Tudal-  
ennau**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau  
yn unol â'r Côt Ymddygiad

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaidd** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

## COFNODION

- 2 Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant a gynhaliwyd ddydd Iau, 12 Rhagfyr 2017. 1-6

- 3 Derbyn trosolwg o'r gwaith a gafodd ei wneud gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Crimmings, Aelod y Cabinet, Amgylchedd a Hamdden.

### 4 **CYFLWYNIADAU GAN Y CYFARWYDDWR MATERION Y PRIFFYRDD A GOFAL Y STRYDOEDD**

Dderbyn cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd mewn perthynas ag Amgen Cymru.

5 Derbyn diweddariad mewn perthynas â'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) yn dilyn ei weithredu.

6 **CYN CRAFFU**

Ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd, sy'n amlinellu'r adroddiad 'Cynyddu Perfformiad Ailgylchu' a rhoi cyfle i'r Aelodau o'r Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant ymgymryd â chyn-graffu yn y maes hwn i argymhell ffordd ymlaen ac adborth i'r Cabinet.

**ADRODDIADAU CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL**

7 Ystyried yr adroddiad mewn perthynas â Chwynion o Gamweinyddu a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2016/17.

8 **MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cylchrediad:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant (Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S. A. Bradwick a T. Williams yn y drefn honno)

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**

A. Chapman	D. Owen-Jones
M. Fidler Jones	G. Stacey
P. Howe	W. Treeby
G. Jones	M. Weaver
W. Jones	

18 Ionawr 2018

